# Bwletin Awdurdod S4C
# - Tachwedd 2001

## Nod Siarter

Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith bod S4C wedi llwyddo i gadw'r Nod Siarter a chyfeiriodd at y ffaith bod yr adroddiad a dderbyniwyd oddi wrth yr aseswyr yn ganmoliaethus iawn. Mynegodd Aelodau'r Awdurdod eu llongyfarchiadau i'r holl staff ar y gamp ardderchog hon.

## Cadeiryddiaeth S4C

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith ei bod wedi derbyn gwahoddiad oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i wasanaethu am dymor pellach fel Cadeirydd S4C hyd at 31 Mawrth 2006. Lleisiodd holl Aelodau'r Awdurdod eu llongyfarchiadau gwresog gan fynegi bod hyn yn newyddion da iawn i S4C.

## Aelodaeth yr Awdurdod

Adroddodd y Cadeirydd y byddai'r Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn cyhoeddi ymhen wythnos penodiad y ddau Aelod newydd.

*Ôl Nodyn:* Fe gyhoeddodd yr ADCCh ar 2 Tachwedd 2001 bod Dr Christopher Llewelyn, Pennaeth Ymchwil a Pholisi yng Nghyngor Defnyddwyr Cymru; a Mrs Eira Davies a oedd gynt yn Gyfarwyddwr ar Champion FM a Marcher Sound wedi'u penodi fel Aelodau o'r Awdurdod.

## Ysgrifennydd Parhaol yr Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon

Adroddodd y Cadeirydd mai'r person wedi'i phenodi i swydd yr Ysgrifennydd Parhaol yn yr Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon oedd Sue Street, a oedd ar hyn o bryd yn gweithio i'r Swyddfa Gartref. Fe fyddai Sue Street yn cychwyn ar ei swydd ar ddechrau mis Rhagfyr.

## John Owen

Cyfeiriwyd at y ffaith bod y sefyllfa ar y mater hwn wedi newid ers iddo gael ei drafod yn y cyfarfod diwethaf ac yr oedd Aelodau'r Awdurdod eisoes yn ymwybodol fod yr awdur a'r cyfarwyddwr John Owen wedi ei gael yn farw dan amgylchiadau oedd yn awgrymu hunanladdiad. Trafododd yr Aelodau y penderfyniad i barhau i ddarlledu pennod olaf ail ddarllediad *Pam fi Duw* a'r datganiad a wnaed cyn y rhaglen. Nodwyd bod S4C wedi derbyn 22 cwyn ynglyn â'r mater gyda nifer ohonynt yn gwrthwynebu yr hyn roeddynt wedi dehongli fel teyrnged i John Owen. Wrth ystyried y sefyllfa, dywedodd rhai Aelodau eu bod yn gallu deall paham gwelodd rhai pobl y darllediad a'r cyhoeddiad fel teyrnged. Er hynny, cydnabuwyd fel yr oedd y gyfraith yn sefyll yr oedd John Owen yn ddieuog a phe bai S4C wedi penderfynu peidio dangos y rhaglen gallai fod wedi cael ei chyhuddo o gymryd barn ar yr honiadau yn ei erbyn. Nodwyd hefyd bod dal angen ystyried sefyllfa darlledu'r gyfres newydd oedd ynghanol cael ei golygu a hefyd a ddylid bwrw ymlaen gyda'r gwaith ar gyfer y gyfres wedi hynny.

**Cyllideb 2002**

Adroddodd y Prif Weithredwr y byddai adroddiad ar y gyllideb ar gyfer 2002 yn cael ei roi gerbron yr Awdurdod ym mis Tachwedd. Er hynny, tynnodd sylw'r Aelodau at rai o'r pynciau allweddol roedd y Tîm Rheoli'n dal i'w trafod. Cydnabuodd yr Aelodau bod yna benderfyniadau anodd i'w cymryd a gofynnwyd bod amser penodol yn cael ei neilltuo yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod i roi sylw haeddiannol i'r mater hwn

***Ffeil***

Adroddwyd bod y Sianel bellach wedi dod i drefniant gyda'r BBC parthed Ffeil ac fe fyddai yna raglen o ryw 5 munud o hyd yn cael ei darlledu ar ddiwedd y bloc rhaglenni plant. Croesawodd Aelodau'r Awdurdod y newyddion hyn. Nodwyd, er hynny, nad oedd sefyllfa Gôl wedi'i ddatrys eto.

**'Digital Television Action Plan'**

Trafododd yr Aelodau bapur yn gosod allan cynllun gweithredu drafft wedi'i baratoi gan y Llywodraeth er mwyn caniatáu diffodd analog a darlledu digidol yn unig. Papur ymgynghorol oedd hwn a'r dyddiad cau ar gyfer ymateb oedd 2 Tachwedd 2001. Cafwyd trafodaeth hir ac eang ar y papur a chytunwyd ar y prif bwyntiau y dylid eu hymgorffori yn yr ymateb.

**Nawdd**

Ystyriodd yr Aelodau bapur yn gosod allan manylion tri chais ar gyfer nawdd:

- Gwyl Ffilm Ryngwladol Cymru – Cytunwyd y dylid rhoi nawdd o £17,000 tuag at yr Wyl Ffilm yn 2001 ar yr amod bod y neges yn cael ei ddanfon at yr wyl na ddylid ystyried y cynnydd o £2,000 (sef o £15,000 i £17,000) yn un barhaol o anghenraid.
- Cynhadledd Voice of the Listener and Viewer - 'Involving the citizen in the age of digital broadcasting' – Llundain, Ebrill 2002 – Cytunwyd y dylid cyfrannu £500 tuag at y Gynhadledd. (Nodwyd y byddai hyn yn dod allan o gyllideb 2002.)
- Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru - Gwobrau 'Hil yn y Cyfryngau' – Cytunwyd y dylid rhoi nawdd o £1,500 tuag at y gwobrwyon.

**Adolygiad o berfformiad yn erbyn targedau Cynllun Corfforaethol 2001-2003**

Trafodwyd perfformiad S4C hyd yn hyn yn erbyn y targedau a osodwyd yn y cynllun corfforaethol. Nodwyd eto sefyllfa siomedig y ffigurau cyrhaeddiad er bod y ffigwr cyfran wedi gwella rhywfaint yn Chwarter 3. Roedd yn dda i weld hefyd bod nifer o raglenni yn dal i ddenu dros 100,000 o wylwyr. Roedd yn drawiadol, er hynny, bod y canlyniadau ar werthfawrogiad rhaglenni yn y gwahanol *genres* yn gwrth-ddweud y negeseuon roedd yr Awdurdod yn eu derbyn trwy'r cyfarfodydd agored, ac ati – e.e. yn yr adroddiad roedd comedïau sefyllfa yn dangos gwerthfawrogiad gwell na'r sianeli eraill, pan wyddai pawb nad dyma oedd *genre* cryfaf S4C. Byddai'n rhaid cadw golwg ar hyn. Nodwyd bod gweddill y targedau yn y Cynllun Corfforaethol yn cael eu cwrdd yn foddhaol iawn.

**Blaenoriaethau Strategol S4C – Tuag at Gynllun Corfforaethol 2002**

Nododd yr Awdurdod bapur a aeth at y DCMS fel rhan o gais S4C am arian ychwanegol. Roedd yn fwriad i'r ddogfen fod yn sail i Gynllun Corfforaethol 2002-2004.

**Cynllun Busnes S4C Masnachol**

Derbyniodd yr Awdurdod gyflwyniad gan Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol ar gynllun busnes S4C Masnachol. Tynnwyd sylw at: yr hinsawdd economaidd o ran hysbysebu, S4C2 a phrosiectau arbennig dan sylw; strategaeth cyd-gynhyrchu; a sefyllfa SDN. Soniwyd am yr amcanion o fewn y gyllideb sef: sicrhau'r trosglwyddiad i S4C; cadw oddi mewn i ganllawiau'r banc; a pharhau i dyfu gweithgaredd y Gronfa Gyffredinol. Aethpwyd i mewn i fanylion sefyllfa S4C Rhyngwladol, costau gweinyddol, S4C2, SDN, S4C Masnachol.

**Adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth**

Ystyriwyd adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth yn dilyn ei gyfarfod ar 12 Hydref 2001. Yn benodol gofynnwyd am farn yr Awdurdod ar glip o raglen *Dyddiadur y Clwyf* a ddarlledwyd ar 23 Orffennaf 2001. Dyddiadur fideo oedd y rhaglen a baratowyd gan ffermwr ifanc o Sir Fôn. Yn ystod y rhaglen, mewn golygfa ohono mewn tafarn, dywedodd bod manteision i'r clwyf gan ei fod wedi cadw Saeson i ffwrdd ac efallai mai Seimon Glyn oedd yn gyfrifol am ei ledaenu. Roedd yn amlwg mai jôc ddu oedd y sylw. Er hynny, roedd gan S4C ganllaw oedd yn dweud: 'Mae S4C yn ceisio osgoi creu neu atgyfnerthu ystrydebau a rhagdybiaethau negyddol am grwpiau neu fathau arbennig o bobl (e.e. rhywiol, hiliol, crefyddol neu ieithyddol) drwy'r rhaglenni yn eu cyfanrwydd.'

***Cytunwyd:***

(a) y dylid diolch i'r Grwp Cydymffurfiaeth am ddod â'r mater i'r sylw ac i'r Uned Fonitro am eu gofal a chraffter wrth sylwi ar y mater;

(b) nid oedd y mater hwn yn achlysur o bryder mawr fel un digwyddiad ar ei ben ei hun, ond fe fyddai'n fater o bryder pe bai achlysuron tebyg, cyson yn digwydd yn y dyfodol.

**Cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Peirianneg a Thechnoleg Gwybodaeth**

Derbyniodd yr Awdurdod gyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Peirianneg a Thechnoleg Gwybodaeth. Fe wnaeth y cyflwyniad edrych tuag at y dyfodol a thrafodwyd: datblygiadau band llydan; sut yr oedd cwmnïau megis BT ac NTL yn ymateb i ddatblygiadau; y sefyllfa reoli sianelau; yr hyn fyddai'r gwyliwr yn ei ddisgwyl; y newid o analog i ddigidol daearol. Yn fwy penodol i Gymru, esboniwyd rhai o'r pryderon ynglyn a diffyg pwer trosglwyddyddion, yr angen (oherwydd daearyddiaeth Cymru a gwasgariad ei phoblogaeth) i gael mwy o 'frequencies' a safleoedd ar gyfer digidol daearol er mwyn cael cyrhaeddiad rhesymol; a phroblemau lle'r oedd yn bosibl na fyddai ardaloedd ar y gororau yn derbyn gwasanaethau Cymreig a Chymraeg. Esboniwyd hefyd y cynlluniau oddi mewn S4C ar gyfer symud ymlaen at y dyfodol, cynlluniau megis: ail-gynllunio'r sustemau digidol er mwyn ei wneud yn fwy effeithiol ac effeithlon, dod â darlledu hysbysebion o dan do; ychwanegu adnoddau cyflwyno gwell; symud yn raddol o sustemau tâp i rai disg, ac yn y blaen.

Diolchodd yr Aelodau i'r Cyfarwyddwr am gyflwyniad ardderchog a wnaeth ychwanegu at eu dealltwriaeth o'r datblygiadau technegol a hefyd o'r sialensau a chyfleoedd o flaen y Sianel a'r byd darlledu yn fwy cyffredinol.

## Materion Eraill

Nodwyd trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad ar y Gwasanaeth Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Cwynion
- Cofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2001
- Adroddiad y Wifren Gwylwyr.
- Adroddiad Ymchwil – Perfformiad y gwasanaeth yn erbyn targedau
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol.